# PWYLLGOR CYNLLUNIO DYDD LLUN, 12 EBRILL 2021

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Eric M Jones
Is Gadeirydd: Y Cynghorydd Gareth A Roberts

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Simon Glyn (eitemau 1 – 5.5) Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Edgar Owen, Eirwyn Williams ac Owain Williams

**Swyddogion**: Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Keira Sweenie (Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu), Dafydd Gareth (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Glyn Llewelyn Gruffudd (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu), Gwawr Hughes (Swyddog Rheolaeth Datblygu), Aneurin Parry (Arweinydd Tîm Gorfodaeth), Lea Connelly (Arweinydd Tîm Bioamrywiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd**: Cynghorydd Peter Read, Cynghorydd Aled Evans (Aelodau Lleol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

a) Datganodd y Pennaeth Cyfreithiol fuddiant yn eitemau 5.5, 5.6 a 5.8 ar y rhaglen gan fod ei frawd yn gweithio i'r cwmni penseiri ar y ceisiadau.

Roedd y swyddog o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais.

b) Datganodd yr aelodau canlynol ei bod yn aelodau lleol mewn perthynas â'r eitemau a nodir:

- Y Cynghorydd Peter Read (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 ar y rhaglen, (C20/01/TP - gorchymyn diogelu coed)
- Y Cynghorydd Owain Williams (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.2 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C201063/22/AC), 5.3 ar y rhaglen (cais cynllunio rhif C201064/22/AC), a 5.4 ar y rhaglen, (cais cynllunio C201065/22/AC)
- Y Cynghorydd Simon Glyn (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.5 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C19/0746/46/LL)
- Y Cynghorydd Aled Evans (nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.6 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C20/0673/41/MG) a 5.7 ar y rhaglen (cais cynllunio C20/0674/41/MG)
- Y Cynghorydd Eirwyn Williams (oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.8 ar y rhaglen, (cais cynllunio rhif C20/0040/35/LL)

c) Eitem 5.1 - datganodd yr aelodau eu bod wedi derbyn gohebiaeth yn uniongyrchol gan yr ymgeisydd

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Amlygwyd nad oedd y cofnodion Cymraeg ar gyfer yr 22ain o Fawrth 2021 a gynhwyswyd yn y rhaglen yn rhai cyflawn. Penderfynwyd ail gyflwyno'r cofnodion yn llawn i'r cyfarfod nesaf

## 5. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i ddatblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

## 6. GORCHYMYN DIOGELU COED (GDC) DROS DRO C20/01/TP - TIR GER TYDDYN MEILIR, ABERERCH, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 6YH

**Grŵp o goed**

a) Ymhelaethodd yr Arweinydd Tîm Gorfodaeth ar gefndir y cais gan nodi bod Gorchymyn Diogelu Coed Dros Dro wedi ei osod ar ddau grŵp o goed, oedd wedi eu lleoli i'r gogledd o Tyddyn Meilir, ar yr 8fed o Ragfyr 2020. Eglurwyd bod asesiad o'r ddau grŵp wedi ei gwblhau gan ddefnyddio system TEMPO - byddai unrhyw goeden/coed sy'n sgorio 16 pwynt neu fwy yn teilyngu cael eu diogelu. Adroddwyd bod Grŵp 1 (yn cynnwys 25 o goed Ffawydd) wedi sgorio 18 pwynt, a Grŵp 2 (yn cynnwys 32 o goed ffawydd, 2 sycamorwydden, ac 1 dderwen gyda'r ffawydd wedi polardio fewn i glawdd) wedi sgorio 16 pwynt. Ystyriwyd bod y coed o werth mwynderol uchel.

   Nodwyd bod gwrthwynebiad i'r gorchymyn dros dro wedi ei dderbyn gan yr Aelod Lleol a pherchennog y tir ynghyd a llythyr gan Undeb Amaethwyr Cymru (dyddiedig 3 Mawrth 2021) yn cefnogi gwrthwynebiad y perchennog tir. Wedi derbyn y gwrthwynebiadau i'r gorchymyn, ymgynghorwyd ymhellach gyda'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth a chyfeiriwyd at y sylwadau a dderbyniwyd yn 4.4 o'r adroddiad. Ystyriwyd mai gwrych oedd yn bodoli ar y safle yn y blynyddoedd a fu, ond oherwydd diffyg rheolaeth debygol, bellach ymddengys rhes o goed o rywogaeth ffawydd ar y safle. Derbyniwyd bod dymuniad gan y perchennog tir i ddod a'r coed dan reolaeth, ond pwysleisiwyd bod angen i unrhyw waith i'r coed gael ei wneud drwy ddilyn dulliau gweithio ymarfer da. Amlygwyd bod peth gwaith wedi ei ymgymryd o docio rhai o'r coed a hynny cyn i'r gorchymyn dros dro gael ei gyhoeddi.

   Archwiliwyd y coed 9 Chwefror 2021 yng nghwmni'r perchennog tir, a nodwyd bod sawl coeden gyda phydredd a thyllau yn eu boncyff. Fodd bynnag, ymddengys bod dulliau cynnal neillog ar wahân i docio yn bosibl (gyda chyngor arbenigol priodol) fyddai yn golygu y gellir diogelu'r coed, a rhoi mynediad rhwydd i'r tirfeddiannwr ar gyfer amaethu'r tir a chynnal y borfa. Cyfeiriwyd at y 4 dewis oedd gan y Pwyllgor ac argymhellwyd bod y Pwyllgor yn dewis opsiwn (i), sef cadarnhau'r gorchymyn heb newidiadau.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad noddodd y tirfeddiannwr y pwyntiau canlynol ynghyd a dangos fideo byr o'r coed a'u cyflwr

- Pwysleisiodd mai ei fwriad oedd tocio'r coed ac nid eu cwympo - byddai hyn yn ymestyn oes y coed oherwydd bod pydredd yn amryw ohonynt
- Aml i gangen wedi dod i lawr yn y blynyddoedd diweddar ac yn syrthio i’r lon
- Wedi dechrau tocio cyn derbyn y gorchymyn - tocio i uchder o 10’- 12’ - yn wreiddiol wedi cael eu tocio fel gwrych
- Gwaith ysgafnu ar nifer y coed
- Amlygodd yn y fideo bod nifer wedi pydru gyda ffwng yn tyfu ar ambell un
- Os dim yn tocio, bydd y coed yn mynd yn rhy drwm i’r boncyffion

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:
- Bod cyflwr y coed yn wael, felly herio sgôr yr asesiad
- Bod cysgod o’r coed yn amharu ar wella’r brofa
- Bod y tirfeddiannwr yn methu mynd a thractor at ochr y cae
- Bod y tirfeddiannwr wedi cysylltu gydag ef cyn tocio
- Bod lori stoc methu mynd i lawr at y fferm
- Os na fyddai’r coed yn cael eu tocio, byddant yn debyg o ddisgyn yn y storm nesaf
- Y coed heb eu tocio ers hanner canrif
- Tynnu sylw bod Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn gwrthwynebu’r gorchymyn
- Bod pethau yn anodd i ffermwyr heb orfod mynd i gostau ychwanegol

ch) Cynigwyd ac eiliwyd i beidio â chadarnhau'r gorchymyn dros dro a chaniatáu
’r docio'r coed heb ymyrraeth

Ymhelaethodd y cynigydd drwy nodi:
- Nad oedd bwriad creu bygythiad i’r coed
- Os na fydda’r tirfeddiannwr yn tocio’r coed buasent yn disgyn beth bynnag
- I ymestyn oes y coed byddai tocio yn beth da – yr unig ffordd o reoli ac achub y coed
- O ran yr elfen weledol, well fyddai tocio’r coed na'u gweld yn pydru
- Byddai tocio coed yn yr Hydref yn amserol - ail egino erbyn y Gwanwyn
- Nad oedd unrhyw esgeulustod ar ran y tirfeddiannwr
- Proses o dderbyn adroddiad coed yn llafurus ynghyd a chostau ychwanegol diangen
- Byddai’r tirfeddiannwr yn gweithredu yn sensitif a chyfrifol
- Annog yr Aelodau i ganiatáu torri coed i ymestyn eu hoes

d) Mewn ymateb i’r sylwadau, nododd y Pennaeth Cyfreithiol bod angen system yn ei le i ganiatáu gwaith tocio priodol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â’r ychwanegiad sydd angen ar yr ymgeisydd i fynd i’r afael a’r sefyllfa, nododd y Pennaeth Cynorthwyol, yn unol â safonau perthnasol i gadw’r coed, bod trefniant priodol yn cadarnhau’r dulliau torri addas i warchod ‘iechyd’ y coed. Ategwyd nad oedd gorchymyn gwarchod coed yn drefn anghyffredin - byddai cynllun yn sicrhau gwaith cynnal a chadw gydag arbenigaeth berthnasol.

Ategodd y Swyddog Bioamrywiaeth bod asesiad gorchymyn dros dro wedi ei gwblhau a bod y canlyniad yn awgrymu bod cynnal a chadw’r coed yn hanfodol. Byddai gôr dorri yn rhoi straen ar y coed a gydag amryw o rywogaethau gwahanol byddai angen cynllun torri addas ar gyfer pob rhywogaeth. Y bwriad fyddai cydweithio gyda’r ymgeisydd, gan gyflwyno

cynllun gweithredu priodol i sicrhau gwarchodaeth.

dd) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol gan aelodau:
- Yn amlwg bod y tir feddiannwr yn ofalgar dros y coed
- Bod yn anodd dirnad maint y coed o'r lluniau
- Bod angen gwell tystiolaeth - lluniau o'r amgylchedd cyfagos
- Pwysig bod y gwaith tocio yn cael ei wneud yn briodol
- Prinder coed ffawydd yn Llŷn
- O ran diogelwch y cyhoedd, angen sicrhau nad oes coed yn disgyn i'r ffordd
- Awgrym i dorri'r rhai sydd wedi pydru ac ail blannu
- Cynorthwyo'r tirfeddiannwr yw'r flaenoriaeth
- Y coed yn debygol o ddisgyn yn naturiol, felly angen gwneud rhywbeth am y sefyllfa yn fuan

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau cynllun gweithredu ac arbenigwyr i ymdrin â'r gwaith, nodwyd bod costau ynghlwm a'r gwaith ond nad oedd y rhain yn gostau gwirion

e) Pleidleisiwyd ar y cynnig i beidio â chadarnhau'r gorchymyn dros dro a chaniatáu i'r ymgeisydd docio'r coed heb ymyrraeth

Disgynnodd y cynnig

f) Cynigiwyd ac eiliwyd i gadarnhau'r gorchymyn fel y mae, heb newidiadau gyda phwyslais ar warchod y coed a derbyn cyngor gan arbenigwyr.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r gorchymyn heb newidiadau.**

## 7. CAIS RHIF C20/1063/22/AC - CEFN GRAIANOG, LLANLLYFNI, CAERNARFON, LL54 6SY

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff bod safle'r cais ar ystlys ddwyreiniol yr ardal echdynnu bresennol, tua 530m o AHNE Llŷn ac i'r gorllewin o Barc Cenedlaethol Eryri. Ymhelaethodd gan nodi mai'r bwriad yw ail-ymweld â'r ardaloedd yma i ail-weithio'r mwyn a ystyriwyd yn flaenorol i fod yn aneconomaidd, gan hefyd alluogi'r cynllun echdynnu i gael mynediad i ddyddodion pellach gan ymestyn tua'r dwyrain. Ategodd bod ardal yr estyniad arfaethedig yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella gyda therfynau caeau o waliau cerrig afreolaidd. Yn ffinio'r ardal, mae'r ardal waith presennol i'r gorllewin, llwybr beicio Lôn Eifion i'r dwyrain ac ardal o laswelltir corsiog, garw i'r gogledd.

Eglurwyd bod Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn 11, Chwefror 2021) yn amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth y Cynulliad o ran cloddio mwynau. Dylai pob Awdurdod Cynllunio Mwynau sicrhau bod ei gynlluniau datblygu yn caniatáu cyfrannu at gyflenwad mwynau sy'n diwallu anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi cymeradwyo'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a luniwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd ar hyn o bryd yn destun ail adolygiad. Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli'n gynaliadwy

Mae'n ofynnol bod y Cyngor, fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, yn cynnal banc tir o fwynau agregau wrth gefn yn unol â'r canllawiau cyfredol sy'n nodi lleiafswm o saith mlynedd ar gyfer tywod a graean. Ers cyhoeddi'r Adolygiad RTS cyntaf, mae lefel gyffredinol yr agregau wrth gefn a ganiatawyd yng ngogledd Cymru wedi gostwng - mae'r bwriad yn ychwanegiad a groesawir i'r banc tir o dywod a graean yng ngogledd orllewin Cymru.

Yn amodol i'r holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyriwyd bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi Mwynau Strategol PS22 a Pholisi MWYN 3 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:
- Y safle wedi hen sefydlu
- Dim gwrthwynebiad i ymestyn y cyfnod
- Gwaith adfer yn hanfodol
- Cais i gynnal trafodaethau ynglŷn â chynnwys plannu coed yn y cynlluniau adfer
- Bod angen gwarchod Lôn Eifion

c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod hyn yn osgoi cario mwynau i mewn o leoliad arall
- Bod y safle yn cael ei reoli yn dda – dim cwynion wedi eu derbyn
- Bod yr adnodd ei hangen yng Ngwynedd
- Bod y safle yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol

a) Mewn ymateb i sylw'r Aelod Lleol ynglŷn â phlannu coed, nodwyd bod gwell cyfleoedd o blannu coed a chreu nodweddion nythu yn deillio o'r cais dilynol ( C20/1064/22/AC). Amlygwyd mai adfer y tir i borfa y byddai'n cael ei wneud yma.

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C16/0816/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau mwynau sy'n ymwneud â gweithrediad tair lagŵn dyddodion ategol a'r gwaith cysylltiedig am gyfnod o 4 blynedd ychwanegol:**

**Daw'r gwaith o echdynnu mwynau i ben erbyn 31 Rhagfyr 2024 ac erbyn hynny bydd yr holl weithfeydd a pheiriannau wedi'u gwaredu o'r safle; bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2025.**

**Ymateb ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru i'w atodi i'r daflen penderfyniad, yn cynghori y dylid cysylltu â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â'r rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol a'r ddarpariaeth o wasanaeth o fewn eu cylch gwaith.**

**Amodau cynllunio fel y presennol mewn perthynas â'r rheolaethau rheoli a ganlyn;**
- **Hyd y cyfnod gweithio**
- **Cyfyngu ar yr Hawliau Datblygu a Ganiateir, adeiladau, strwythurau, rhai a godir, ffyrdd preifat, llifoleuadau a ffensys,**
- **Mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau posib ar ffynhonnau i'r gogledd**

**o'r ardal echdynnu,**

- **Mesurau lliniaru ar gyfer bioamrywiaeth leol, Moch Daear, adar bridio ac ymlusgiaid,**
- **Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â'r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd,**
- **Oriau Gweithio,**
- **Diogelu hawliau tramwy cyhoeddus,**
- **Ymdrin â phridd a hwsmonaeth**
- **Draenio, mesurau i atal llygru cyrsiau dŵr lleol,**
- **Ail-adfer terfynau caeau**
- **Micro-addasu lefelau adfer i sicrhau llif dŵr wyneb i'r gwlypdir tua'r gogledd o ardal y cais,**
- **Lliniaru a chofnodi archeolegol,**
- **Mesurau ôl-ofal ar gyfer defnyddiau amaethyddol a rheoli bioamrywiaeth,**
- **Rheolaethau llwch a chyfyngu ar sŵn yn yr un modd ag y gwneir eisoes, ond hefyd, gosod larymau sŵn gwyn ar beiriannau'r gwaith yn yr wyneb gweithio.**

**8. CAIS RHIF C20/1064/22/AC - CEFN GRAIANOG, LLANLLYFNI, CAERNARFON, LL54 6SY**

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff bod isadeiledd rheoli dŵr y safle wedi ei adolygu yn 2015, gan fod angen cloddio silt allan o'r lagwnau yn rheolaidd er mwyn sicrhau'r capasiti setlo gofynnol. Eglurwyd bod tueddiad gan y system i orlwytho yn ystod cyfnodau o lawiad parhaus a chyson gyda'r posibilrwydd y gall llifogydd cyflym ddigwydd ble mae dŵr wyneb a dŵr ffo o'r tir gerllaw yn ymuno â dŵr o'r lagŵn siltio presennol, gan arwain at y posibilrwydd o ddŵr ffo llygredig yn effeithio ar SoDdGA ac ACA Cors Gyfelog.

Prif bwrpas y datblygiad arfaethedig i'r lagwnau yw ategu'r isadeiledd rheoli dŵr presennol trwy system gaeedig, er mwyn atal hyn rhag digwydd. Bydd capasiti uwch yn y lagwnau yn lliniaru effeithiau posib ar yr amgylchedd dŵr lleol, ac yn darparu system reoli dŵr hunangynhwysol ar y cyd â'r isadeiledd presennol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:
- Angen sicrhau bod yr ardal yn ddiogel
- Y safle yn agos at lwybrau cyhoeddus ac felly angen tynnu sylw at beryglon y lagwnau
- Cynllun adfer i gynnwys plannu coed coll ddail - gwern, bedw arian - coed cynhenid
- Amlygu pryderon am yr effeithiau i Gors Gyfelog

c) Cynigwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- cais i ystyried sylwadau'r Aelod Lleol yng nghyd-destun diogelu'r ardal a phlannu coed

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i**

**gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 2 ar ganiatâd cynllunio C15/0299/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau mwynau sy'n ymwneud â gweithrediad tair lagŵn dyddodion ategol a'r gwaith cysylltiedig am gyfnod o 4 blynedd ychwanegol:**
**Daw'r defnydd a ganiateir o'r safle fel lagŵn siltio ategol i ben erbyn 31 Rhagfyr 2024; cwblheir y gwaith adfer wedyn erbyn 30 Mehefin 2025 neu pan fydd y gwaith yn dod i ben, pa bynnag un ddaw gyntaf.**

**Ymateb ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru i'w atodi i'r daflen penderfyniad, yn cynghori y dylid cysylltu â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â'r rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol a'r ddarpariaeth o wasanaeth o fewn eu cylch gwaith.**

**Amodau cynllunio fel y presennol mewn perthynas â'r rheolaethau rheoli a ganlyn;**

- **Hyd y cyfnod gweithio,**
- **Cyfyngu ar yr Hawliau Datblygu a Ganiateir, adeiladau, strwythurau, rhai a godir, ffyrdd preifat, llifoleuadau a ffensys,**
- **Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â'r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd,**
- **Oriau Gweithio,**
- **Diogelu hawliau tramwy cyhoeddus,**
- **Ymdrin â phridd a hwsmonaeth**
- **Draenio, mesurau i atal llygru cyrsiau dŵr lleol,**
- **Adfer i ddefnydd amaethyddol cymysg a chadwraeth natur,**
- **Mesurau ôl-ofal ar gyfer defnyddiau amaethyddol a rheoli bioamrywiaeth,**
- **Rheolaethau llwch a chyfyngu ar sŵn yn yr un modd ag y gwneir yn barod.**

**9. CAIS RHIF C20/1065/22/AC - CEFN GRAIANOG, LLANLLYFNI, CAERNARFON, LL54 6SY**

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff bod y cynnig dan sylw yn gofyn am ymestyn y cyfnod o amser hyd 31 Rhagfyr 2024 i barhau gyda'r gweithrediadau mwynau yn Fferm Graianog. Eglurodd y byddai gweithredu hyn yn sicrhau dad-sterileiddiad y gronfa fwynau ond hefyd, cwblhau'r gwaith o adfer y safle yn unol â'r cynllun gwaith cymeradwy a darparu seilwaith ategol i gefnogi'r cynigion i gaffael a gweithio mwynau o'r estyniad i'r chwarel. Nid yw'r cynnig yn cynnwys ymestyn ôl-troed y gweithrediad mwynau ei hun, ond yn hytrach, ymestyn y cyfnod o amser am 4 blynedd arall. Bydd gweithgareddau peiriannau ar y safle, prosesu, cludiant a'r gwaith o gloddio'r mwyn wedi'i gynnwys yn llwyr oddi mewn i ffiniau'r safle presennol ac yn unol â thelerau ac amodau'r cais cynllunio cyfredol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol nad oedd ganddo wrthwynebiad i ymestyn y cyfnod amser

c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol gan aelod:

- Bod y gwaith adfer hyd yma wedi bod yn arbennig o dda – gobaith y

bydd y waliau cerrig ar porfeydd o'r un safon i'r dyfodol

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Cynorthwyol yr Adran i gymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r newid isod i Amod 1 ar ganiatâd cynllunio C10D/0487/34/MW i ymestyn oes y gweithrediadau mwynau sy'n ymwneud â gweithrediad tair lagŵn dyddodion ategol a'r gwaith cysylltiedig am gyfnod o 4 blynedd ychwanegol:**

**Bydd y gwaith o echdynnu, prosesu a dosbarthu mwynau yn dod i ben erbyn 31 Rhagfyr 2024 ac erbyn hynny bydd yr holl weithfeydd a pheiriannau wedi'u gwaredu o'r safle; bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau erbyn 31 Rhagfyr 2025.**

**Ymateb ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i'w atodi i'r daflen penderfyniad, yn cynghori y dylid cysylltu â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â'r rheolaethau amgylcheddol a gweithredol penodol o fewn eu cylch gwaith.**

**Amodau cynllunio fel y presennol mewn perthynas â'r rheolaethau rheoli a ganlyn;**

- **Hyd y cyfnod gweithio,**
- **Cyfyngu ar yr hawliau datblygu a ganiateir, adeiladau, strwythurau, ffyrdd preifat, llifoleuadau a ffensys,**
- **Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â'r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd;**
- **Oriau Gweithio,**
- **Diogelu hawliau tramwy cyhoeddus,**
- **Ymdrin â phridd a hwsmonaeth,**
- **Draenio, mesurau i atal llygru cyrsiau dŵr lleol,**
- **Adfer i ddefnydd cymysg amaethyddol a chadwraeth natur,**
- **Ail-adfer ffiniau caeau,**
- **Lliniaru a chofnodi archeolegol,**
- **Mesurau ôl-ofal a chyfarfodydd blynyddol ar gyfer defnyddiau amaethyddol, rheoli bioamrywiaeth a rheoli rhywogaethau planhigion anfrodorol,**
- **Rheolaethau llwch a chyfyngu ar sŵn yn yr un modd ag y gwneir eisoes, ond hefyd, gosod larymau sŵn gwyn i'w gosod ar beiriannau'r gwaith yn y wyneb gweithio.**

**10. CAIS RHIF C19/0746/46/LL - TREFGRAIG ISAF, RHYDLIOS, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 8LR**

a) Ymhelaethodd yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu ar gefndir y cais gan nodi bod y cais gwreiddiol a gyflwynwyd yn cynnwys gosod 10 carafán deithiol dymhorol a phedair pabell ar safle gwersylla teithiol presennol ar gyfer y Clwb Carafanau a Gwersylla (mae'r dystysgrif ar gyfer 5 carafán neu gerbyd “motorhome” a hyd at 10 pabell). Adroddwyd bod cynllun diwygiedig wedi ei dderbyn yn nodi bwriad i dynnu'r elfen gwersylla yn gyfan gwbl o'r bwriad a lleihau nifer y carafanau o 10 i 8.

Cadarnhawyd mai'r bwriadar oedd lleoli 8 carafán symudol ar y safle. Amlygwyd bod y safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored ag o fewn dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn a Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. Mae mynediad at y safle

ar hyd ffordd ddi-ddosbarth gymharol gul a throellog gyda'r lleoliad oddeutu milltir o'r gyffordd agosaf gyda phriffordd y B4413. Ategwyd bod y safle presennol yn dir gwyrdd gyda gwrychoedd yn ei amgylchynu sydd yn ei wneud yn guddiedig o fewn yr ardal gyfagos.

Ystyriwyd y byddai cyfyngu defnydd y safle i 8 carafán deithiol yn unig yn lleihau defnydd y safle a thrwy hynny, yr effaith yn lleol. Wedi asesu'r datblygiad yn ei ffurf ddiwygiedig ystyriwyd bod y bwriad bellach yn dderbyniol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol
- Bod y safle wedi hen sefydlu,
- Wedi ei dirlunio yn dda ac yn cael ei reoli yn dda
- Byddai'r bwriad yn lleihau tagfeydd yn yr ardal
- Croesawu'r addasiadau
- Cefnogol i'r bwriad

c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol gan aelod:
- Angen sicrhau lled ddigonol rhwng y carafanau yn unol â gofynion y drwydded

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfyngiad niferoedd carafanau ynteu gyfyngiad motorhomes nodwyd bod yr amodau yn cyfyngu 8 carafán neu 8 motorhome

**PENDERFYNWYD**

**Caniatáu gydag amodau**

**1. Amser**
**2. Unol a'r cynllun diwygiedig**
**3. Cyfyngu niferoedd a defnydd a dim pebyll i'w gosod o fewn safle'r cais**
**4. Cynllun arwyddion dwyieithog**

**Nodyn: Angen sicrhau trwydded briodol**

## 11. RHIF CAIS C20/0673/41/MG - CAE BODLONDEB, GER AEL Y BRYN, CHWILOG, LL53 6SH

Cais ar gyfer materion a gadwyd yn ôl a gwybodaeth draenio a datblygu cam wrth gam mewn cyswllt a chaniatâd cynllunio amlinellol C16/1603/41/AM ar gyfer codi 9 tŷ sy'n cynnwys 3 fforddiadwy a ffordd mynediad.

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

a) Egluroddodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu y caniatawyd y cais amlinellol gyda llunwedd, graddfa, golwg a thirweddu wedi ei gadw yn ôl, gyda'r cais gerbron ar gyfer asesu y materion hynny ynghyd a materion draenio a datblygu cam wrth gam sy'n destun amodau rhif 7 a 10 o'r caniatâd amlinellol. Ategwyd bod egwyddor y bwriad ynghyd a'r materion yn ymwneud gyda'r fynedfa

eisoes wedi eu caniatáu o dan y cais amlinellol.

Tynnwyd sylw fod cais cynllunio C20/0674/41/MG hefyd wedi ei gyflwyno ar ail hanner y safle yng nghyd-destun caniatâd amlinellol C16/1363/41/AM ar gyfer 9 tŷ ychwanegol (3 ohonynt yn fforddiadwy) ac sy'n defnyddio'r un fynedfa. O'i ddarfod byddai'r ddau ddatblygiad yn ymddangos fel un datblygiad mwy.

Disgrifiwyd y safle presennol fel rhan o gae sy'n codi'n raddol o'r briffordd ac sydd wedi ei leoli tu ôl i dai presennol a ger stad Tŷ'n Rhos gyda'r cais yma yn ymwneud a hanner y safle sydd agosaf i dai presennol Tŷ'n Rhos, ac sy'n cynnwys y ffordd fynediad. Amlygwyd bod rhan helaeth o'r safle erbyn hyn wedi ei leoli y tu allan i ffin ddatblygu pentref Chwilog, er bod y fynedfa yn parhau o fewn y ffin ddatblygu. Ategwyd bod y cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais gerbron yn cadarnhau'r fynedfa yn unol â'r hyn a ganiatawyd o dan y caniatâd amlinellol. Mae llunwedd y safle yn dangos bwriad i ddarparu ffordd stad oddi ar y fynedfa sy'n fforchio; ynghyd a chodi 4 annedd ar wahân a 3 mewn teras ar ochr chwith y ffordd stad sy'n fforchio i'r chwith. Nodwyd fod y cais amlinellol yn destun cytundeb 106 sydd yn sicrhau'r elfen fforddiadwy ynghyd a taliadau ar gyfer llecynnau agored ac addysg.

O ganlyniad, yr unig faterion a aseswyd ar gyfer y cais yma oedd materion dyluniad, llunwedd, graddfa a thirweddu. Adroddwyd bod nodweddion dyluniad amrywiol yn yr ardal gyda dyluniad, gorffeniad a'r tirweddu bwriedig yn syml, yn cydweddu'r ardal ac yn dderbyniol o ran effaith weledol. Nodwyd bod sylwadau gan yr Uned Drafnidiaeth ynglŷn â threfn parcio a llwybr troed wedi eu cyflwyno i'r asiant ar gyfer eu datrys - mater llwybr troed yn golygu sicrhau fod y cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno yn cyfateb a'i gilydd. Yn ddarostyngedig i dderbyn cynlluniau diwygiedig i'r llwybr troed ac amodau i sicrhau gorffeniad y ffordd stad, datblygiad gam wrth gam a pharcio, ystyriwyd y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau TRA 2 a 4 o'r CDLl.

Cyfeiriwyd at sylwadau oedd wedi eu derbyn gan drigolion lleol, yr Aelod Lleol ynghyd â'r Cyngor Cymuned ynglŷn â materion draenio presennol ar y safle sy'n effeithio tai cyfagos. Nodwyd bod swyddogion o'r Uned Draenio yn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi ymweld â'r safle. Yn ogystal, bydd angen dylunio'r system gwaredu dŵr wyneb er mwyn cydymffurfio â gofynion System Draenio Gynaliadwy (SuDS). Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y system ddraenio newydd bydd mesurau cynnal a chadw yn cael eu cynnwys oddi fewn i gynllun systemau dwr cynaliadwy (SuDS) a fydd yn cael ei gymeradwyo gan Uned Dwr ac Amgylchedd y Cyngor yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC).

Amlygwyd, yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad, mai'r argymhelliad fyddai Dirprwyo'r hawl i ganiatáu'r cais er mwyn cytuno ar fanylion terfynol y cylfat a derbyn sylwadau ffafriol gan yr Uned Draenio Tir.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol
   - Bod angen parhau gyda thrafodaethau yn ymwneud a'r cylfyrt
   - Angen osgoi llifogydd i res o dai cyfagos

c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu y cais

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i ganiatáu'r cais er mwyn cytuno ar fanylion terfynol y cylfat a derbyn sylwadau ffafriol gan yr Uned Draenio Tir**

- **Amodau priffyrdd**
- **Nodyn fod amodau 7 a 10 o'r caniatâd amlinellol sy'n ymwneud â materion draenio a datblygu gam wrth gam wedi eu rhyddhau fel rhan o'r caniatâd yma.**
- **Nodyn SUDS**

**12. CAIS RHIF C20/0674/41/MG - CAE BODLONDEB, GER AEL Y BRYN, CHWILOG, LL53 6SH**

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr.

a) Eglurodd y Swyddog Rheolaeth Datblygu y caniatawyd y cais amlinellol gyda llunwedd, graddfa, golwg a thirweddu wedi ei gadw yn ôl, gyda'r cais gerbron ar gyfer asesu'r materion hynny ynghyd a materion draenio a datblygu cam wrth gam sy'n destun amodau rhif 7 a 9 o'r caniatâd amlinellol. Ategwyd bod egwyddor y bwriad ynghyd a'r materion yn ymwneud gyda'r fynedfa eisoes wedi eu caniatáu o dan y cais amlinellol.

Adroddwyd fod y cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais gerbron yn cadarnhau'r fynedfa yn unol â'r hyn a ganiatawyd o dan y caniatâd amlinellol. Ymddengys llunwedd y safle bod bwriad i ddarparu ffordd stad oddi ar y fynedfa sy'n fforchio; ynghyd a chodi 6 annedd ar wahân ar ochr chwith y ffordd stad a theras o 3 annedd fforddiadwy ar yr ochr dde. Mae'r rhan yma o'r datblygiad yn cynnwys 6 annedd 4 gwely farchnad agored a 3 annedd fforddiadwy 3 gwely. Nodwyd fod y cais amlinellol yn destun cytundeb 106 oedd yn sicrhau'r elfen fforddiadwy ynghyd a thaliadau ar gyfer llecynnau agored ac addysg. Roedd y caniatâd amlinellol yn nodi math penodol o gymysgedd dai (6 tŷ 4 gwely farchnad agored a 3 tŷ fforddiadwy 3 gwely) ac mae'r elfennau yma eisoes wedi eu caniatáu drwy'r cais amlinellol.

O ganlyniad, yr unig faterion a aseswyd ar gyfer y cais yma oedd materion dyluniad, llunwedd, graddfa a thirweddu. Adroddwyd bod llunwedd y bwriad gerbron yn cyd-fynd gyda'r hyn a gynigiwyd ar adeg y cais amlinellol, gyda chynllun safle bwriedig yn cadarnhau fod y datblygiad yn dderbyniol o ran effaith ar weddill tai'r datblygiad.

Cyfeiriwyd at sylwadau oedd wedi eu derbyn gan drigolion lleol, yr Aelod Lleol ynghyd â'r Cyngor Cymuned ynglŷn â materion draenio presennol ar y safle sy'n effeithio tai cyfagos. Nodwyd bod swyddogion o'r Uned Draenio yn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi ymweld â'r safle. Yn ogystal, bydd angen dylunio'r system gwaredu dŵr wyneb er mwyn cydymffurfio â gofynion System Draenio Gynaliadwy (SuDS).

Mae sylwadau wedi eu derbyn gan drigolion lleol, yr Aelod Lleol ynghyd a'r Cyngor Cymuned ynglŷn â materion draenio presennol ar y safle ac sy'n effeithio tai cyfagos. Mae swyddogion o'r Uned Draenio yn ymwybodol o'r sefyllfa ac wedi ymweld â'r safle. Yn ogystal, bydd angen dylunio'r system gwaredu dŵr wyneb er mwyn cydymffurfio a gofynion System Draenio Gynaliadwy (SuDS).

Amlygwyd, yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad, mai'r argymhelliad fyddai Dirprwyo'r hawl i ganiatáu'r cais er mwyn cytuno ar fanylion terfynol y cylfat a derbyn sylwadau ffafriol gan yr Uned Draenio Tir.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol

- Bod angen parhau gyda thrafodaethau yn ymwneud a'r cylfyrt

- Angen osgoi llifogydd i res o dai cyfagos

c) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatau y cais

**PENDERYNWYD: Dirprwyo'r hawl i ganiatáu'r cais er mwyn cytuno ar y manylion terfynol y cylfat a derbyn sylwadau ffafriol gan yr Uned Draenio Tir**

- **Amodau priffyrdd**
- **Nodyn fod amodau 7 a 10 o'r caniatâd amlinellol sy'n ymwneud â materion draenio a datblygu gam wrth gam wedi eu rhyddhau fel rhan o'r caniatâd yma.**
- **Nodyn SUDS**

**13. CAIS RHIF C20/0040/35/LL - SIBRWD Y GWYNT, MORANNEDD, CRICIETH, LL52 0PP**

a) Amlygodd Arweinydd Tîm Rheolaeth Datblygu bu i'r Pwyllgor Cynllunio ohirio gwneud penderfyniad ar y cais yn eu cyfarfod ar yr 22ain o Fawrth, 2021 er mwyn gofyn i swyddogion drafod y deunydd toi a chladin allanol gyda'r ymgeisydd.

Bwriad y cais oedd codi tŷ newydd a chreu mynedfa gerbydol oddi ar y ffordd stad bresennol. Eglurwyd bod y safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu pentref Criccieth; ar blot cul o fewn stad o dai amrywiol sydd ar lethr sy'n codi tua chefn y safle, ac wedi ei leoli rhwng dau eiddo gydag eiddo arall union o'i flaen gyferbyn a'r ffordd stad gul. Ategwyd bod y cais wedi bod yn destun sawl cais cynllunio ac apêl - 6 cais cynllunio wedi ei wrthod ar y safle yn y gorffennol a chaniatâd wedi ei roi ar y safle drwy apêl ar sail y cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o gais C08D/0870/35/LL, Cadarnhawyd bod y caniatâd yma yn parhau yn fyw ar y safle

Cyflwynwyd y cais i Bwyllgor ar gais yr Aelod Lleol.

Adroddwyd bod yr adroddiad yn mynd i'r afael a'r materion hynny a godwyd yn yr apeliadau blaenorol; ac yn asesu'r bwriad yn erbyn polisïau cyfredol y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd bod penderfyniadau apêl (gwrthod a chaniatáu) ar y safle yn gosod yn glir fod potensial i eiddo deulawr ar y safle yma beri goredrych ac effaith annerbyniol ar y trigolion gerllaw bob ochr ac i'r blaen. Mae'r penderfyniadau apêl yn dibynnu ar leoliadau ffenestri a lefelau llawr er mwyn sicrhau nad oes effaith andwyol ar y tai cyfagos.

Eglurwyd bod y tŷ sydd gerbron erbyn hyn oddeutu 4m yn lletach a 1m yn hirach na'r eiddo a ganiatawyd. Nodir fod yr eiddo wedi ei ddylunio gydag ongl ar y blaen fel nad yw'r edrychiad yn edrych allan i'r un cyfeiriad i gyd (i geisio osgoi goredrych). Mae'r annedd gerbron felly ychydig yn is o ran crib y to na'r hyn a ganiatawyd ond yn lletach ac yn cynnwys mwy o agoriadau ar y llawr cyntaf. Ystyriwyd nad yw'r lleihad mewn uchder yn gyfaddawd am yr effaith andwyol o gynyddu ei led ac ychwanegu agoriadau ar y llawr cyntaf. Ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol sylweddol yn fwy ar eiddo Pen y Bryn sydd wedi ei leoli yn union o flaen y safle, na'r hyn a grybwyllwyd yn dderbyniol yn ystod apêl 2011. Ystyriwyd fod maint yr eiddo (yn benodol ei led a'i swmp) yn golygu nad yw'r eiddo yn cydweddu a phatrwm adeiladu a dyluniad y stad

Adroddwyd bod y swyddogion wedi trafod deunydd to a chladin allanol gydag

asiant yr ymgeisydd a bod yr asiant yn fodlon newid y to i do llechi a chladin i sedar yn hytrach na dur. Er hynny, ar sail yr asesiad, roedd y swyddogion yn parhau i ystyried fod y bwriad yn annerbyniol oherwydd ei faint (yn benodol ei uchder a'i led) lleoliad y ffenestri/drysau a balconïau ar yr edrychiad blaen a'r lefelau llawr gorffenedig yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau a phreifatrwydd rhesymol eiddo o flaen y safle. Yr argymhelliad oedd gwrthod y cais.

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y pwyntiau canlynol:
- Ei fod yn cytuno gyda phenderfyniad Cyngor Cymyned / Tref
- Dim gwrthwynebiad

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd i ganiatáu'r cais yn groes i'r argymhelliad

d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod y pryderon am y deunyddiau allanol wedi eu datrys
- Deunyddiadu allanol bellach yn dderbyniol
- Bod y dyluniad gorffenedig erbyn hyn yn gweddu yn well gyda thai cyfagos
- Nad oes un math o ddyluniad unigryw i'r ardal
- Na fyddai effeithiau ar fwynderau tai cyfagos a goredrych dim gwaeth na'r hyn sydd eisoes wedi derbyn caniatâd

**PENDERFYNWYD:**

**Caniatáu yn groes i'r argymhelliad**

**Amodau**
**5 mlynedd, yn unol â'r cynlluniau, deunyddiau, tynnu hawliau a ganiateir, cynllun draenio, cwblhau parcio, dim mwy o ffenestri heb ganiatâd**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 1.10 y.h.

**CADEIRYDD**